

Diploma Ôl-radd (PGDip) a MMus Cyfansoddwr-Perfformiwr

Cais Drwy: UCAS Conservatoires

Cod Sefydliad: R59

Ffi Ymgeisio: £26

Ffi Clyweliad (un offeryn): £63

Ceisiadau'n Agor ar gyfer Mynediad 2021: 16 Gorffennaf 2020

Ceisiadau'n Cau ar gyfer Mynediad 2021: 1 Hydref 2020

Mae'r trosolwg hwn yn rhoi crynodeb o'r rhaglenni a gynigir o fis Medi 2020. A fyddech cystal â nodi y gallai'r rhain gael eu haddasu a'u newid yn y dyfodol. Ymgynghorir â myfyrwyr bob amser ynglŷn â newidiadau o'r fath a bydd manylion ar gael i ymgeiswyr sydd â chynigion. Er mwyn i fyfyrwyr allu symud o flwyddyn gyntaf i'r ail ar gwrs ôl-radd dwy flynedd, bydd angen iddynt *fel arfer* lwyddo yn holl fodiwlau'r flwyddyn gyntaf.

	Diploma Ôl-radd	MMus
Modiwlau Craidd	Cyfansoddwr – Perfformiwr 1	Cyfansoddwr – Perfformiwr 1
	Cyfansoddwr – Perfformiwr 2	Cyfansoddwr – Perfformiwr 2
	Y Cerddor Proffesiynol	Y Cerddor Proffesiynol
		Y Cerddor Gwybodus
		Prosiect Ymchwil neu Myfyrion ar Berfformiad
Modiwlau Dewisol (dewiswch un o'r rhestr)	Uwch Sgiliau Addysgu	Uwch Sgiliau Addysgu
	Uwch Sgiliau Allgymorth	Uwch Sgiliau Allgymorth
	Recordio Sain Uwch	Recordio Sain Uwch
	Rheoli Gyrfa	Rheoli Gyrfa
	Prosiect Creadigol	Prosiect Creadigol
	Prosiect Unigol	Prosiect Unigol
	Clyweliad Cerddorfaol	Clyweliad Cerddorfaol
	Portffolio o Gyfansoddiadau	Cyflwyno mewn Cynhadledd
	Portffolio o Drefniannau	Portffolio o Gyfansoddiadau
	Prosiect Galwedigaethol	Portffolio o Drefniannau Prosiect Galwedigaethol

Cyfansoddwr – Perfformiwr 1

Modiwl Craidd ar gyfer PGDip a MMus

Credydau: 40

Asesiad: Portffolio o Waith Creadigol (30%); Dyddlyfr Dadansoddol (20%) a Pherfformiad (50%)

Cyfansoddi

Bydd y modiwl hwn yn rhoi fframwaith y gall pob myfyriwr ei ddefnyddio i ddatblygu gwaith creadigol arloesol (yn annibynnol ac ar y cyd) ar draws ystod eang o gyd-destunau. Bydd y gwaith hwn wedi'i seilio ar wybodaeth eang o dechnegau cyfansoddi, estheteg gyfredol a dulliau proffesiynol, a'r rhagolygon creadigol ar gyfer y dyfodol, a fydd yn rhoi'r gallu i bob myfyriwr fynd i'r afael â datblygiadau a heriau wrth iddynt ymddangos. Uchelgais creadigol y modiwl yw cynhyrchu gwaith cyhoeddus newydd ysgogol i safon ragorol sy'n anelu ar gyflawniad proffesiynol o lefel uchel.

Perfformio

Cefnogir myfyrwyr i ddatblygu cyfuniad o sgiliau technegol, arddulliol, artistig a deallusol sy'n sail i bob perfformiad ar lefel uwch. Cefnogir addysg Prif Astudiaeth a hyfforddiant cysylltiedig gan ddsbarthiadau lle caiff y weithred o berfformio ei hymarfer ac yna myfyrio ar hyn.

Cyfansoddwr - Perfformiwr 2

Modiwl Craidd ar gyfer PGDip a MMus

Credydau: 40

Asesiad: Portffolio Creadigol (80%); Viva Voca (20%)

Gan adeiladu ar y modiwl Cyfansoddwr – Perfformiwr 1, bydd y modiwl hwn yn rhoi cyfle i'r myfyrwyr ddiffinio eu llwybr creadigol eu hunain ar gyfer y flwyddyn, gan gydbwysu eu darpariaeth mewn perthynas â'u canlyniadau arfaethedig ar gyfer Portffolio Creadigol.

Bydd yr elfen perfformio yn caniatáu i'r myfyrwyr fireinio'r sgiliau technegol, artistig, arddulliol a deallusol sy'n sail i berfformiad ar lefel broffesiynol. Gan gyfuno'r rhain gyda'r fframwaith a gynigir drwy gyfansoddi, bydd y myfyrwyr yn cael eu mentora i gynhyrchu gwaith cyhoeddus ysgogol newydd i safon ragorol sy'n anelu ar gyflawniad proffesiynol o lefel uchel.

Y Cerddor Proffesiynol

Modiwl Craidd ar gyfer PGDip a MMus

Credydau: 20

Asesiad: Portffolio o waith datblygu gyrfa (50%); Prosiect Unigol (50%)

Mae'r modiwl hwn yn ymdrin â materion sy'n ymwneud â sefydlu, cynnal a datblygu gyrfaedd ym maes cerddoriaeth, gan greu gweithwyr proffesiynol cyflawn a gwybodus. Mae'r elfen Portffolio yn canolbwyntio ar ddatblygu technegau myfyrio effeithiol ar gyfer datblygiad gyrfa. Er mwyn cefnogi hyn, archwiler cyfathrebu a rhwydweithio fel cerddor proffesiynol ac entrepreneur drwy seminarau sy'n ymdrin â materion hunanhyrwyddo. Trafodir elfennau o ddeunydd hyrwyddo, yn cynnwys defnydd priodol o dechnoleg a chyfryngau. Mae dosbarthiadau eraill yn ymwneud â datblygu dealltwriaeth uwch o hyd a lled y dull sydd ei angen i gyflwyno eich hun (a phrosiectau) mewn amgylchedd proffesiynol a'r angen i groesawu tueddiadau sy'n newid yn y byd cerddoriaeth. O ran cynnal gyrfa, archwiler materion yn ymwneud ag iechyd a lles ar gyfer cerddorion, yn cynnwys pynciau megis atal anafiadau, diogelu'r clyw a gwytnwch.

Gan adeiladu ar y gwaith gwerthuso a strategol a wneir ar gyfer y Portffolio, bydd myfyrwyr yn cynllunio eu prosiect entrepreneuraidd eu hunain, gan naill ai weithio ar eu pen eu hunain neu mewn grŵp bach i gyflawni canlyniad sy'n gysylltiedig â'u syniadau ar gyfer eu gyrfa yn y dyfodol neu

er mwyn llenwi bylchau a ganfuwyd mewn sgiliau/gwybodaeth. Mae'r canlyniadau posibl yn amrywio o ymchwil manwl i yrfa, ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, trefnu a chynnal perfformiad. Ar ôl ei gwblhau'n llwyddiannus caiff y prosiect arfaethedig ei rannu a'i drafod mewn seminarau grŵp ar ddiwedd Tymor y Gwanwyn.

Y Cerddor Gwybodus

Modiwl Craidd ar gyfer MMus

Credydau: 20

Asesiad: Cyflwyniad fideo 15 munud (50%); 4 beirniadaeth 500 gair o'r fideo (50%)

Bwriad y modiwl hwn yw datblygu cerddorion gwybodus; mae'n cyfuno astudiaeth o ystod eang o arferion perfformio'r gorllewin o safbwynt ymarferol ac o ran estheteg, gydag archwiliad rôl hollbwysig dadansoddi mewn cyflwyno perfformiadau gwybodus. Bydd darlithoedd a chyflwyniadau ar ystod o faterion ac arfer gwybodus, yn amrywio o berfformio cerddoriaeth gynnar i'r cyfoes ac electroneg, yn cyflwyno cysyniadau allweddol. Gallai'r pynciau yr ymdrinnir â hwy gwmpasu rôl newidiol cerddoriaeth a cherddorion, y berthynas rhwng repertoire, offeryniaeth, maint ensemble a lleoliad, gwerthuso ffynonellau cynradd a pherfformio argraffiadau, nodiant, addurniad, cynaniad, ac effaith recordiad ar sut yr ydym yn perfformio gwahanol repertoire. Dilynir hyn gan gyfres o ddarlithoedd a seminarau gan ddefnyddio'r llenyddiaeth ar Ddadansoddi a Pherfformio fel man cychwyn ar gyfer ystyried y berthynas bosibl rhwng y ddau weithgarwch hwn. Edrychir ar dechnegau dadansoddi traddodiadol a rhoddir ystyriaeth i sut y gellir defnyddio'r rhain o fewn fframwaith perfformio. Canolbwyntir y sylw ar ymchwilio ffyrdd i ddadansoddi paramedrau cerddoriaeth sydd o arwyddocâd arbennig i'r perfformiwr, er enghraifft gwedd a thechneg. Bydd myfyrwyr yn uwchwytho cyflwyniad fideo sy'n trafod materion perfformiad gwybodus (cyd-destunol a dadansodol) i sianel y Coleg; bydd hwn yn un rhan o'r asesiad; y gofyniad arall fydd adolygu a gwerthuso fideos pedwar myfyriwr arall (Tymor 2).

Myfyrio ar Berfformiad

Modiwl Craidd ar gyfer MMus

Credydau: 40

Asesiad: Portffolio o Adolygiadau (50%) a dewis o gyflwyniad 20-30 munud (50%)

Mae cyfathrebu fel cerddor yn gofyn am sgiliau beirniadol o lefel uchel a hynny yn y fan a'r lle. Bwriedir i'r modiwl hwn ddatblygu ystod eang o uwch sgiliau myfyrio, beirniadol a chyfathrebu, o ran perfformiadau y bydd pob myfyriwr yn dod ar eu traws a hefyd eu perfformiadau eu hunain. Asesir y sgiliau hyn drwy bortffolio o adolygiadau. Archwilir a chyflwynir uwch sgiliau beirniadol ac ymchwil yn ymwneud ag elfen allweddol o berfformiad a/neu y diwydiant celfyddydau ehangach drwy gyflwyniad sy'n canolbwyntio ar ddiddordebau'r myfyriwr. Mae'r opsiynau yn cynnwys Darlith-ddatganiad, Perfformiad â darluniau, Sgwrs TED, Darlith Safbwynt a Sgwrs Cyn Perfformiad. Unwaith y bydd opsiwn a phwnc wedi'u dewis, drwy drafodaeth gyda'r tîm addysgu, pennir goruchwylydd priodol i weithio gyda'r myfyriwr yn unigol.

Prosiect Ymchwil

Modiwl Craidd ar gyfer MMus

Credydau: 40

Asesiad: Asesir y modiwl hwn drwy un elfen

- Traethawd hir (100%)
- Argraffiad ysgolheigaidd darn sylweddol o waith a baratowyd ac a olygwyd gan y myfyriwr, gyda sylwebaeth feirniadol lawn (100%)
- Portffolio wedi'i ddogfennu'n llawn o waith creadigol yn ymwneud â phrosiect arbenigol, seiliedig ar ymchwil (100%)

- Prosiect entrepreneuriaidd: dogfennaeth sy'n cynnig y prosiect (60%) a chyflwyniad 15 munud gerbron panel (40%)

Bydd y modiwl hwn yn arwain ac yn cefnogi'r gwaith o gynllunio, paratoi a chyflwyno ymchwil yn ymwneud â maes sydd o ddiddordeb cerddorol arbennig i'r myfyriwr. Dilynir gweithdai cychwynnol mewn uwch fethodoleg ymchwil gan diwtorialau unigol a seminarau grŵp. Ar ôl cyflwyniad damcaniaethol 300 gair, rhaid i'r pynciau gael eu trafod gyda thîm addysgu cymeradwyedig; yna pennir tiwtoriaid unigol a llunnir amserlen ar gyfer sesiynau goruchwylio. Bydd gofyn i fyfyrwyr gyflwyno adroddiadau ar eu cynnydd mewn seminarau ymchwil ôl-radd dynodedig.

Uwch Sgiliau Addysgu

Modiwl Dewisol ar gyfer PGDip a MMus

Credydau: 20

Asesiad: Viva Voce (60%) a naill ai Traethawd (40%) neu Adnodd Addysgu Ar-lein Sylweddol

Mae'r modiwl hwn yn ymwneud ag addysgu offerynnau, lleisiau a/neu gyfansoddi. Drwy gydol y modiwl anogir myfyrwyr i edrych ar addysgu fel gweithgaredd sy'n gofyn am y canolbwyntio, medr a'r sylw mwyaf posibl, ac i ystyried disgyblion fel unigolion; gan eu cydnabod a'u meithrin fel pobl sydd ag anghenion unigryw ac unigol. Bydd y meysydd yr ymdrinnir â hwy yn cynnwys: arolwg o'r prif ysgolion addysgeg, datblygu meini prawf ar gyfer dewis deunyddiau addysgu, cwmpasu anghenion technegol a cherddorol, strategaeth yn cynnwys trefn a strwythur gwersi a sesiynau ymarfer, a datblygiad uwch sgiliau cyfathrebu geiriol ac di-eiriau.

Uwch Sgiliau Allgymorth

Modiwl Dewisol ar gyfer PGDip a MMus

Credydau: 20

Asesiad: Asesiad Ymarferol (60%) a Phortffolio o Waith Ysgrifenedig (40%)

Mae'r modiwl hwn ar gyfer myfyrwyr sydd eisoes â phrofiad ymarferol o brosiectau allgymorth. Ei nod yw darparu fframwaith y gall y myfyrwyr ei ddefnyddio i ddyfeisio a chwblhau prosiect allgymorth, gan eu galluogi i ddatblygu uwch sgiliau mewn arweinyddiaeth cerddoriaeth, mentora creadigrwydd ac arfer hunanfyfyriol. Bydd yn gwreiddio dealltwriaeth uwch o sut mae eu profiad unigol o waith allgymorth yn perthyn i'r sector ehangach, gan gadw'n gyfoes ag ymchwil a thueddiadau cyfredol. Rhoddir ystyriaeth i faterion diogelu, cyfranogi, cynhwysiant, hunanreoli a gweithio mewn tîm drwy gyfres o seminarau. Disgwylir i fyfyrwyr ganfod a thrafod gyda'r sefydliad lletya y maent wedi'i ddewis, ac yna cyflawni prosiect cynaledig (5 ymweliad), gan ganiatáu ar gyfer myfyrion a datblygiad drwy gydol y broses. Asesir sgiliau ymarferol drwy gyflwyniad fideo, wedi'i recordio yn ystod gweithgaredd cyfranogol terfynol y prosiect. Bydd y Portffolio yn cynnwys materion yn ymwneud â'r gweithdai a gyflwynir, mapio newid ar draws y prosiect a gwerthuso arfer.

Recordio Sain Uwch

Modiwl Dewisol ar gyfer PGDip a MMus

Credydau: 20

Asesiad: Portffolio o Recordiadau (60%) a Chyflwyniad Ysgrifenedig (40%)

Mae'r modiwl hwn ar gyfer myfyrwyr sydd eisoes â phrofiad o ddefnyddio offer recordio sain a meddalwedd perthnasol. Ei nod yw datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad beirniadol myfyrwyr o benderfyniadau creadigol sydd eu hangen mewn ym maes recordio sain a cherddoriaeth, gan archwilio eu gwaith eu hunain a gwaith ymarferwyr eraill. Bydd cyfres o seminarau a dosbarthiadau yn mynd i'r afael ag ystod o faterion yn cynnwys: defnydd gorsafoedd gwaith sain digidol (DAW) a

sut maent wedi effeithio ar y broses recordio; estheteg ategion; recordio amldrac o gymharu â stereo; arfer recordio ar leoliad; a dulliau ar gyfer recordio “clasurol” a “phoblogaidd”. Bydd gofyn i fyfyrwyr gyflwyno portffolio sy’n cynnwys detholiad o recordiadau a wnaed mewn amrywiaeth o leoliadau, fel y cytunwyd gyda’r arweinydd modiwl, a fydd yn darparu goruchwyliaeth unigol ar draws y prosiect. Mae’r cyflwyniad ysgrifenedig yn canolbwyntio ar safiad technegol ac esthetig yr unigolyn, gwerthuso a manylu penderfyniadau yn ystod y broses recordio, cymysgu a chreu tâp meistr.

Rheoli Gyrfa

Modiwl Dewisol ar gyfer PGDip a MMus

Credydau: 20

Asesiad: Portffolio (100%)

Mae’r modiwl hwn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod modiwl Y Cerddor Proffesiynol, yn archwilio’r potensial o weithio fel artist hunangyflogedig, gan nodi a datblygu ystod o adnoddau sydd eu hangen er mwyn gweithio fel gweithiwr llawrydd proffesiynol. Mae’r modiwl hefyd yn rhoi i’r myfyrwyr ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion gwleidyddol ac economaidd sy’n effeithio ar sefydliadau celfyddydol, yn ogystal â datblygu dealltwriaeth o’r cyd-destun y mae sefydliadau celfyddydol yn gweithredu ynddo. Cyflwynir y modiwl drwy gyfres o ddosbarthiadau a bydd myfyrwyr yn gwella eu harfer myfyriol, gan ddefnyddio ystod o dechnegau perthnasol i’r diwydiant i greu portffolio o ddeunyddiau hyrwyddo wedi’u teilwra, yn cynnwys strategaeth farchnata sy’n berthnasol iddynt hwy eu hunain fel perfformwyr. Fel rhan o’r gwaith portffolio, bydd myfyrwyr yn cynllunio, cyflwyno a gwerthuso prosiect a hunangyfarwyddir sy’n addas i’w diddordebau eu hunain ar gyfer gyfra.

Prosiect Creadigol

Modiwl Dewisol ar gyfer PGDip a MMus

Credydau: 20

Asesiad: Asesiad Ymarferol (60%) a Phortffolio (40%)

Nod y prosiect yw rhoi fframwaith y gall myfyrwyr ei ddefnyddio i ddyfeisio a chwblhau prosiect perfformio annibynnol, gan gymryd cyfrifoldeb am gynllunio, trefnu a chyflawni yn unol â disgwyliadau proffesiynol. Yn dilyn cyfres o seminarau gwybodaeth, bydd myfyrwyr yn penderfynu ar eu lleoliad perfformio eu hunain ac yn gweithio’n uniongyrchol gyda’r hyrwyddwr i roi ar waith yr holl elfennau sy’n sylfaenol i gyflwyno’r digwyddiad y cytunir arno yn llwyddiannus. Croesawir syniadau perfformio creadigol ac arloesol. Asesir sgiliau ymarferol drwy recordiad fideo o’r perfformiad. Bydd y Portffolio yn cynnwys deunyddiau sy’n ymwneud â’r digwyddiad (deunydd hyrwyddo, tystiolaeth o weithgarwch cyfryngau cymdeithasol, rhaglen, nodiadau rhaglen ac ati) a beirniadaeth fyfyrion o’r prosiect yn ei gyfanrwydd.

Prosiect Unigol

Modiwl Dewisol ar gyfer PGDip a MMus

Credydau: 20

Asesiad: Cyflwyniad Ysgrifenedig (100%)

Bydd y modiwl hwn yn arwain a chefnogi myfyrwyr yn y gwaith o gynllunio, paratoi, cynhyrchu a chyflwyno gwaith yn ymwneud â maes o ddiddordeb cerddorol arbennig. Er y bydd y pynciau’n amrywio, bydd gan bob prosiect gydbwysedd o elfennau ymchwilio, myfyrio creadigol a/neu arfer proffesiynol cymwysedig. Gall enghreifftiau o’r math o weithgarwch amrywio o draethawd hir ffurfiol ar bwnc cerddolegol, argraffiad ysgolheigaidd o waith a ddewisir, neu gynllun busnes wedi’i ddogfennu’n llawn ar gyfer maes arfaethedig o weithgarwch proffesiynol. Rhaid trafod y pynciau

gyda, a chael cymeradwyaeth gan, yr Arweinydd Cwrs Ôl-radd; yna pennir tiwtoriaid unigol a llunnir amserlen ar gyfer sesiynau goruchwyllo.

Clyweliad Cerddorfaol

Modiwl Dewisol ar gyfer PGDip a MMus (ac eithrio myfyrwyr Perfformio Cerddorfaol)

Credydau: 20

Asesiad: Clyweliad Cerddorfaol (60%) a Phortffolio (40%)

Mae'r modiwl hwn ar gyfer myfyrwyr sy'n rhan o gynlluniau Profiad Cerddorfaol BBCNOW neu WNO (neu gyfatebol). Mae'n galluogi myfyrwyr i gael ymwybyddiaeth uwch o ofynion clyweliad cerddorfaol proffesiynol, yn cefnogi datblygiad sgiliau offerynnol soffistigedig ar draws ystod eang o repertoire cerddorfaol ac yn creu cyfleoedd ar gyfer gwreiddio dealltwriaeth o foesau a phrotocolau proffesiynol cerddorfaol. Yn dilyn clyweliad llwyddiannus ar gyfer cynlluniau Profiad Cerddorfaol BBCNOW neu WNO, bydd myfyrwyr yn cymryd rhan mewn gweithgarwch ochr yn ochr â'r cerddorfeydd proffesiynol hyn, gan gael eu mentora a derbyn adborth gan euartneriaid desg/arweinwyr adran. Gan adeiladu ar y sgiliau hyn, drwy ystod o ddulliau addysgu, bydd myfyrwyr yn paratoi ar gyfer clyweliad cerddorfaol ffurfiol; bydd eu Portffolio yn cynnwys deunyddiau proffesiynol priodol (llythyr eglurhaol a CV) yn ogystal â gwaith myfyrio ysgrifenedig ar eu datblygiad ar draws y modiwl hwn, gan gynnwys adroddiadau mentor.

Portffolio o Drefniannau

Modiwl Dewisol ar gyfer PGDip a MMus

Credydau: 20

Asesiad: Portffolio o waith creadigol, a beirniadaeth ysgrifenedig (100%)

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyfle ar gyfer astudiaeth a hunangyfarwyddir mewn cynhyrchu portffolio o drefniannau, gan gymryd cyfrifoldeb am gynllunio a datblygu'r gwaith mewn modd arloesol a chreadigol. Mae'n cynnig y cyfle i fyfyrwyr ddatblygu ymhellach eu sgiliau trefnu a chynhyrchu portffolio o drefniannau gwreiddiol gyda recordiadau i gyd-fynd â hwy. Yn nodweddiadol bydd y portffolio yn cynnwys UN gwaith mawr a DAU ddarn llai. Arweinir y myfyrwyr drwy gydol y modiwl gan oruchwyllydd, ac i gyd-fynd â'u gweithiau bydd beirniadaeth ysgrifenedig yn gwerthuso eu prosesau creadigol a chanlyniadau.

Portffolio o Gyfansoddiadau

Modiwl Dewisol ar gyfer PGDip a MMus

Credydau: 20

Asesiad: Portffolio o waith creadigol, a beirniadaeth ysgrifenedig (100%)

Mae'r modiwl hwn yn rhoi cyfle ar gyfer astudiaeth a hunangyfarwyddir mewn cynhyrchu portffolio o gyfansoddiadau, gan gymryd cyfrifoldeb am gynllunio a datblygu'r gwaith mewn modd arloesol a chreadigol. Mae'n cynnig y cyfle i fyfyrwyr ddatblygu ymhellach eu sgiliau cyfansoddi a chynhyrchu portffolio o weithiau gwreiddiol gyda recordiadau i gyd-fynd â hwy. Yn nodweddiadol bydd y portffolio yn cynnwys UN gwaith mawr a DAU ddarn llai. Arweinir y myfyrwyr drwy gydol y modiwl gan oruchwyllydd, ac i gyd-fynd â'u gweithiau bydd beirniadaeth ysgrifenedig yn gwerthuso eu prosesau creadigol a chanlyniadau.

Cyflwyno mewn Cynhadledd

Modiwl Dewisol ar gyfer MMus

Credydau: 20

Asesiad: Cyflwyniad (70%), Myfyrdod Beirniadol (30%)

Fel arfer caiff y pwnc a'r gynhadledd/symposiwm neu ddigwyddiad tebyg a fwriedir ei benderfynu gan y myfyriwr mewn ymgynghoriad a'r Arweinydd Modiwl. Pennir Goruchwylydd Modiwl a fydd yn darparu cefnogaeth diwtorial ym mhob agwedd ar baratoi'r papur. Caiff papurau a fwriedir ar gyfer eu cyflwyno yn Symposia Ymchwil CBCDC eu hasesu o fewn y cyd-destun hwnnw, tra bydd y rheini a fwriedir ar gyfer eu cyflwyno'n allanol yn cael eu hasesu mewn seminar Ymchwil CBCDC cyn y digwyddiad arfaethedig. Gellir defnyddio adborth staff yn dilyn cyflwyno'r papur i lywio myfyrio beirniadol y myfyriwr ar y broses gyfan.

Prosiect Galwedigaethol

Modiwl Dewisol ar gyfer PGDip a MMus

Credydau: 20

Asesiad: Cyflwyniad (100%)

Yn dilyn trafodaeth gychwynol gyda'r Arweinydd Modiwl, cynorthwyr pob myfyriwr i benderfynu ar brofiad priodol yn y diwydiant ar gyfer y prosiect hwn. Disgwylir i'r myfyrwyr fod yn rhagweithiol mewn trafod gyda'r darparwr (lle bo hynny'n briodol) a sicrhau rhyngwyneb esmwyth rhwng amserlen y lleoliad ac ymrwymadau eraill y Coleg. Bydd union natur y lleoliad, ei ofynion ac unrhyw ddeilliannau dysgu penodol yn cael eu cytuno ar sail un i un ymlaen llaw. Bydd angen i'r myfyrwyr gyflwyno crynodeb 500 gair yn egluro pam eu bod yn gwneud y prosiect penodol hwn cyn dechrau arno. Dylai'r cynnig gynnwys datganiad moeseg gyda'r cynnig hwn a bydd hefyd yn amodol ar gliriad iechyd a diogelwch priodol, lle bo hynny'n berthnasol. Cynhelir y lleoliad fel arfer mewn un tymor a dylai gyfateb i o leiaf 10 diwrnod o waith. Ar ôl cwblhau'r lleoliad, bydd y myfyrwyr yn paratoi ac yn rhoi cyflwyniad a fydd yn para 25-30 munud a ddylai fyfyrwyr ar y profiad, amlinellu'r manteision o ran hyfforddiant a gafwyd a gosod y gweithgarwch o fewn cyd-destun datblygiad gyrfa'r myfyriwr.